

Canllawiau Ffynhonnell Rhif. 7

COFRESTRIAD SIFIL – GENEDIGAETHAU, PRIODASAU A MARWOLAETHAU

BETH YW COFRESTRIAD SIFIL?

Dechreuodd cofrestriad sifil o enedigaethau, priodasau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr ar 1 Gorffennaf 1837 pan gymerodd y Wladwriaeth gyfrifoldeb dros gofnodi'r wybodaeth hynny. O'r dyddiad hwnnw, cyflwynwyd tystysgrifau ar gyfer genedigaethau, priodasau a marwolaethau sy'n gallu bod yn werthfawr iawn i'r hanesydd teuluol ac ar gyfer pynciau ymchwil hanesyddol eraill. Mae'r mynegai i'r tystysgrifau hyn yn cael eu cadw yn y Swyddfa Gofrestru Cyffredinol yn Southport, Glannau Mersi. Mae'r rhan fwyaf o fynegai wedi'u trawsgrifio erbyn hyn a gallwch **archwilio ar lein** er nad yw'r mynegai ar lein yn gyflawn ac mae bylchau yn dal ynddi. Gweler 'Gwybodaeth Bellach' isod am wefannau sy'n cynnwys mynegai o dystysgrifau geni, priodi a marw. Mae'r mynegai'n rhoi enwau'r partion â rhan, Chwarter y flwyddyn pan gynhaliwyd y digwyddiad (e.e. mae Chwarter Mawrth yn nodi digwyddiad ym mis Ionawr, Chwefror neu Fawrth y flwyddyn honno) a'r Ardal Gofrestru ble cynhaliwyd y digwyddiad.

Cofiwch, er bod Cofrestriad Sifil yn ofyniad cyfreithiol o 1837 ymlaen, nid oedd yn gwbl effeithiol yn y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, amcangyfrifir nad oedd hyd at 15% o enedigaethau'n cael eu cofrestru rhwng 1837 a 1860 mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr, ac ni chafodd rhieni eu cosbi am beidio â gwneud hynny tan 1875.¹

NID ydym yn dal tystysgrifau geni, priodi a marw yn Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint. Maen nhw'n cael eu cadw ar lefel genedlaethol gan y Swyddfa Gofrestru Cyffredinol, ac yn lleol gan Swyddfa Gofrestrydd ardal. Ni ddylid eu cymysgu gyda chofnodion cofrestr plwyf ar gyfer bedydd, priodas a marwolaeth mewn eglwysi plwyf a chapeli - gweler Canllaw Ffynhonnell Rhif 1.

BETH ALLAI I DDARGANFOD O DYSTYSGRIFAU GENI, PRIODI A MARW?

Mae **Tystysgrifau Geni**'n rhoi'r union ddyddiad genedigaeth, lle y ganwyd (weithiau dim ond enw'r pentref neu bentrefan yn hytrach nag enw stryd benodol a rhif y tŷ); enw a rhyw'r plentyn, enw cyntaf a chyfenw'r tad (neu le gwag ar gyfer plentyn anghyfreithlon); enw, cyfenw ac enw cyn priodi'r fam; gwaith y tad. Mae'r dystysgrif yn cael ei harwyddo gan yr hysbysydd, a

¹ Hey, D. The Oxford Companion to Local and Family History. Oxford, 1996. p.96.

chofnodir hefyd eu disgrifiad a'u trigfan. Mae dyddiad y cofrestriad a llofnod y cofrestrydd hefyd yn cael eu cofnodi.

Mae **Tystysgrifau Priodi** yn rhoi dyddiad y briodas; enw'r eglwys, capel neu swyddfa gofrestru ble cynhaliwyd y briodas; enw'r ddau bartner; oedran y partneriaid; eu cyflwr i briodas (e.e. Hen Lanc, Hen Ferch, Gweddwy ayb); rheng neu broffesiwn pob partner; lleoedd byw ar adeg y briodas; enwau llawn a rhengoedd neu broffesiwn eu tadau; enwau a llofnodion y tystion. Cyn 1870, efallai nad oedd oedran gwirioneddol pob parti'n cael ei ddatgan, ond dylai'r dystysgrif gofnodi a oeddynt yn 'oedran llawn' (dros 21 mlwydd oed).

Mae **Tystysgrifau Marw** yn cofnodi dyddiad a lleoliad y farwolaeth; enw(au) cyntaf a chyfenw'r ymadawedig; rhyw, oedran a gwaith yr ymadawedig; achos y farwolaeth; llofnod, disgrifiad a lle mae'r hysbysydd yn byw; dyddiad y cofrestriad a llofnod y cofnodydd.

SUT ALLAI I GAEL TYSTYSGRIFAU GENI , PRIODI A MARW?

Gallwch ddefnyddio'r gwefannau a restrir isod (Gweler 'Gwybodaeth Bellach') i **chwilio'r mynegai ar lein** i dystysgrifau geni, priodi a marw. Os ydych yn dod o hyd i gofnod tebygol, gwnewch nodyn o'r dyddiad, rhif y gyfrol, rhif y dudalen ac enwau'r partion. Mae hwn yn gyfeirnod y **Swyddfa Gofrestru Cyffredinol** a gallwch ei ddefnyddio i gael y dystysgrif oddi wrthyn nhw. Dyma eu manylion cyswllt: Certificate Services Section, General Register Office , PO Box 2, SOUTHPORT, PR8 2JD, Ffôn. +44 (0) 845 603 7788, e-bost: certificate.services@ons.gsi.gov.uk

Nid yw'r cyfeirifau sy'n cael eu rhoi ar y mynegai ar lein yn cyd-fynd â'r cofnodion sy'n cael eu dal gan Swyddfa'r Cofrestrydd Lleol. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud nodyn o Chwarter y flwyddyn pan gafwyd y digwyddiad, ac enwau'r partion, mi ddylech fod yn gallu archebu'r dystysgrif oddi wrth **eich Cofrestrydd Lleol**. Gallwch gysylltu â Chofrestrydd Sir y Fflint fel a ganlyn: Swyddfa Gofrestru, Llwynegrin Hall, yr Wyddgrug, CH7 6NR, Ffôn 01352 703333 Ffacs: 01352-703334 e-bost: register@flintshire.gov.uk

GWYBODAETH BELLACH

Mae rhestr o holl ardaloedd cofrestru Sir y Fflint a gweddill y DU, a sut maen nhw wedi newid dros amser, i'w canfod ar wefan Genuki: www.genuki.org.uk Rhai o'r gwefannau ble allwch chwilio am fynegai ar-lein genedigaethau, priodasau a marwolaeth yw:

www.freebmd.org – mynegai Geni, Priodi a Marw am ddim dros Gymru a Lloegr (prosiect parhaus, nid yw'r mynegai wedi'u trawsgrifo'n gyflawn).

www.northwalesbmd - mynegai Geni, Priodi a Marw am ddim yng Ngogledd Cymru (prosiect parhaus, nid yw'r mynegai wedi'u trawsgrifo'n gyflawn).

www.ancestry.co.uk – Mae gennym danysgrifiad i *Ancestry*, gwefan boblogaidd ymchwil hanes teuluol, yn Swyddfa Gofrestru Sir y Fflint sy'n golygu y gallwch chwilio'n mynegai am ddim. Os ydych yn chwilio o gartref, bydd yn rhaid i chi dalu i weld rhai cofnodion.